

# Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

Darllenwch y daflen hon i gael gwybod sut rydym yn defnyddio'r  
wybodaeth bersonol a rowch i ni, a pham

# Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

**Pan fyddwch yn gwneud cais i gynilo neu fuddsoddi gyda ni, gofynnwn i chi roi rhywfaint o'ch manylion personol i ni fel y gallwn agor a gweinyddu'ch cyfrif. Rydym yn ymroi i gadw'r holl wybodaeth yr ydym yn ei dal amdanoch yn ddiogel, yn breifat ac yn gyfrinachol.**

Mae'r daflen hon yn esbonio pam mae arnom angen casglu'ch manylion personol a'r hyn a wnawn gyda nhw. Hefyd, mae'n amlinellu'r seiliau cyfreithiol ar gyfer casglu a defnyddio'ch gwybodaeth, ac mae'n amlinellu'r hawliau sydd gennych o dan ddeddfwriaeth diogelu data presennol.

## **Pa fanylion rydych yn eu casglu amdanaf?**

Byddwn yn gofyn am eich enw llawn (teitl, enw(au) cyntaf a chyfenw), dyddiad geni, cyfeiriad post, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a manylion cyfrif banc enwebedig. Byddwn yn gofyn am fanylion eich cyfrif banc fel y gallwn wneud taliadau i chi, er enghraifft pan fyddwch yn codi arian neu'n ennill gwobr Bondiau Premiwm. Pan fyddwch yn talu arian i mewn trwy gerdyn debyd, bydd arnom angen manylion eich cerdyn. A phan fyddwch yn talu arian i mewn trwy siec i agor cyfrif, byddwn yn gofyn am fanylion y cyfrif y tynnir y siec arni. Mae arnom angen y wybodaeth bersonol hon fel y gallwn ddarparu'r cyfrifon neu'r gwasanaethau y gofynnoch amdanynt. Hefyd, mae arnom angen rhywfaint o'r wybodaeth hon i gyflawni ein dyletswydd gyfreithiol i wirio pwy ydych chi, eich cyfeiriad a ffynhonnell eich arian. Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth hon i ni, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu darparu ein cyfrifon neu ein gwasanaethau i chi.

## **Pryd byddwch chi'n casglu'r manylion hyn?**

Byddwn yn eu casglu pan fyddwch yn gwneud cais i agor cyfrif trwy ein gwefan, dros y ffôn neu drwy lenwi ffurflen a'i phostio atom. Hefyd, byddwn yn casglu rhai o'ch manylion pryd bynnag y byddwch yn gwneud trafodyn neu'n cysylltu â ni ynglŷn â'ch cyfrifon. Gall hyn fod ar-lein, dros y ffôn, drwy'r post, drwy'r e-bost, drwy'r cyfryngau cymdeithasol, neu pan fyddwch yn defnyddio apiau a gynigir gennym neu ein gwasanaeth opsiynau gwobrau Bondiau Premiwm ar-lein.

## **Gwefan, apiau, y cyfryngau cymdeithasol a chymunedau**

Mae ein gwefan, apiau a'r negeseuon e-bost a anfonwn yn defnyddio cwcis a thechnolegau olrhain eraill i gasglu gwybodaeth. Pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan neu'n defnyddio ein apiau, gallwch ddewis derbyn/gwrthod neu reoli cwcis a thechnolegau tebyg, ond mae angen i'n ffurflenni cais ar-lein a'n prosesau eraill ddefnyddio cwcis er mwyn iddynt weithio'n iawn. Cewch ragor o wybodaeth am ein polisi cwcis yn nhroedyn pob tudalen we trwy glicio ar y ddolen i 'Cookies' neu glicio'r tab 'More' ar ein apiau symudol.

Pan fyddwch yn defnyddio ein gwefan neu apiau, byddwn yn casglu gwybodaeth megis y porwr rydych yn ei ddefnyddio a'r dyddiad a'r amser pan fyddwch yn defnyddio'r wefan neu'r apiau. Fel y rhan fwyaf o apiau eraill, rydym yn casglu data dienw ar sut rydych chi'n defnyddio ein apiau er mwyn gwneud gwelliannau a datrys unrhyw broblemau a allai ddigwydd.

Efallai y defnyddiwn y cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft Twitter a Facebook, i gyfathrebu â chi. Efallai hefyd y defnyddiwn negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i ddarganfod beth yw barn pobl am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau. Trwy ymwneud â ni ar y cyfryngau cymdeithasol, rydych yn derbyn nad yw NS&I yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddata personol rydych chi'n ei roi ar rwydweithiau cymdeithasol neu wefannau. Gallent storio'ch data personol y tu allan i'r Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd neu yn yr Unol Daleithiau. Darllenwch eu polisiau preifatrwydd yn ofalus.

## **Darparu manylion ar ran rhywun arall**

Pan fyddwch yn rhoi manylion i ni am rywun arall, er enghraifft pan fyddwch yn gwneud cais i agor cyfrif ar y cyd, rhaid eich bod wedi cael eu cytundeb i wneud hynny.

## **Beth ydych chi'n ei wneud gyda fy ngwybodaeth?**

Y prif resymau pam rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth yw agor a gweinyddu'ch cyfrif(on), prosesu taliadau i mewn a chodi arian, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am eich cyfrif(on).

Hefyd, gallem ddefnyddio'ch gwybodaeth er mwyn:

- cyflawni ein dyletswydd gyfreithiol i wirio pwy ydych chi, eich cyfeiriad a ffynhonnell eich arian
- atal neu ganfod twyll neu drosedd arall
- anfon negeseuon marchnata atoch am gyfrifon NS&I a allai fod wedi'u teilwra i'ch amgylchiadau (oni bai eich bod wedi dewis peidio â'u derbyn)
- rhoi gwybod i chi am unrhyw wobrau Bondiau Premiwm
- datblygu, profi a gwella ein cynhyrchion, systemau a gwasanaethau, gan gynnwys ein gwefan
- eich gwahodd i gymryd rhan mewn ymchwil i'r farchnad ac arolygon
- dadansoddi ystadegau yn ddienw (ni fyddwn yn gallu adnabod unigolion pan fyddwn yn gwneud hyn)
- creu proffiliau o fathau o gwsmeriaid i'n helpu ni i wella cynhyrchion a gwasanaethau presennol, a datblygu rhai newydd
- anfon negeseuon gwasanaeth pwysig atoch am eich cyfrifon
- cynnal cystadlaethau, digwyddiadau a gweithgareddau hyrwyddo

Pan fyddwch yn ein ffonio ni, gallem fonitro neu recordio'ch galwad at ddiben hyfforddiant neu sicrhau ansawdd, datrys anghydfodau ac atal a chanfod twyll. Hefyd, byddwn yn recordio galwadau fel bod gennym gofnod o'ch cydsyniad o dan rai amgylchiadau, er enghraifft, pan fyddwch yn caniatáu i ni siarad ag aelod o'ch teulu ar eich rhan.

## **Gyda phwy rydych yn rhannu fy manylion?**

Rydym yn defnyddio sefydliadau dethol i'n helpu ni i gyflwyno'r gwasanaeth a ddarparwn i chi. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda'r canlynol:

- **ein partneriaid gwasanaeth** sy'n darparu gwasanaethau prosesu data i ni, er enghraifft gweinyddu'ch cyfrif, argraffu gwarantau a chyfriflenni, anfon post a negeseuon e-bost atoch am eich cyfrifon a chefnogi ein hymchwil i'r farchnad. Rydym yn rhannu'r wybodaeth honno sy'n angenrheidiol yn unig er mwyn iddynt ddarparu'r gwasanaethau hyn
- **rheoleiddwyr** fel Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (FOS) neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- **asiantaethau gwirio credyd** i wirio pwy ydych chi, eich cyfeiriad a ffynhonnell eich arian, ac i atal twyll

Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth gyda chyrrff y llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, llysoedd neu drydydd parti arall i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol neu geisiadau am ddatgeliadau cyfreithlon, er enghraifft. Hefyd, gallwch ofyn i ni rannu'ch gwybodaeth gyda rhywun arall, er enghraifft ymgynghorydd ariannol.

## **Am ba hyd yr ydych yn cadw fy ngwybodaeth?**

Byddwn yn cadw rhywfaint o wybodaeth bersonol pan fydd angen dilys neu gyfreithlon parhaus arnom i wneud hynny. Er enghraifft, byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol am saith mlynedd ar ôl i chi gau cyfrif gyda ni, yn unol ag arfer gorau'r diwydiant a Deddf Cyfyngiadau 1980. Pan na fydd angen dilys neu gyfreithlon arnom i gadw'ch gwybodaeth bersonol mwyach, byddwn yn ei dileu.

## **Bondiau Premiwm a'r gystadleuaeth tynnu rhifau**

Rydym yn cadw cofnodion o ddaliadau Bondiau Premiwm am fwy na saith mlynedd. Mae hyn yn caniatáu i ni ailneilltuo gwobrau os darganfyddwn fod un neu fwy o wobrau wedi'u talu yn annilys. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fydd deiliad Bond yn marw ond ni roddir gwybod i ni. Bob mis, rydym yn cyhoeddi'r rhifau Bondiau Premiwm buddugol ar ein gwefan, ynghyd â gwerth y wobr a enillwyd, gwerth y daliad, y dyddiad y prynwyd y Bond a'r ardal y mae deiliad y Bond yn byw ynddi. Nid ydym yn cyhoeddi enwau na manylion eraill enillwyr Bondiau Premiwm.

## **A ydych yn anfon fy ngwybodaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig?**

Weithiau, mae'n bosibl y byddwn yn anfon eich gwybodaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig, i Ewrop ac i fannau eraill, i brosesu trafodion neu ohebiaeth. Mae'n bosibl y bydd cyfreithiau diogelu data'r gwledydd hyn yn wahanol i gyfreithiau yn y Deyrnas Unedig ac yn cynnig llai o amddiffyniad.

Yn yr achosion hyn, byddwn yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. Er enghraifft, mae ein partner gweithredol yn gwneud rhywfaint o brosesu ar ein rhan yn India. Mae 'Rheolau Corfforaethol Rhwymol' (ymrwymadau cytundebol) ar waith ganddynt, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt brosesu eich gwybodaeth yn unol â deddfau diogelu data perthnasol. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni.

## **Rhoi gwybodaeth i'n gilydd**

Byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi am eich cyfrifon ac yn darparu cyfriflenni rheolaidd. Os bydd angen i ni gysylltu â chi, byddwn yn eich ffonio, yn ysgrifennu atoch trwy e-bost neu lythyr, yn anfon neges destun atoch, neu'n cysylltu â chi drwy ein gwasanaeth ar-lein. Os digwydd mynediad diawdurdod at ddata a allai arwain at risg uchel i'ch hawliau a'ch rhyddidau, er enghraifft risg colled ariannol, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bo modd. I wneud yn siŵr y gallwch dderbyn gwybodaeth a gohebiaeth gennym, ac i atal rhywun arall rhag cael at eich manylion, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym pryd bynnag y byddwch yn newid eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost neu gyfrif banc enwebedig. Bydd rhoi'ch manylion diweddaraf i ni hefyd yn helpu i ddiogelu eich cyfrif(on) trwy wneud yn siŵr nad oes unrhyw wybodaeth a anfonwn atoch yn mynd i'r dwylo anghywir. Gallwch ddiweddarau eich manylion ar-lein neu drwy gysylltu â ni.

---

## **Y cefndir cyfreithiol a'ch hawliau**

Yma, rydym yn crynhoi'r seiliau cyfreithlon ar gyfer y modd rydym yn casglu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, a'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol.

### **Seiliau cyfreithlon**

Caniateir i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol am amrywiaeth o resymau, a elwir yn 'seiliau cyfreithlon'. Dyma'r rhain:

### **Contract**

Mae arnom angen casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol er mwyn rheoli'r cyfrif(on) cynilo rydych am eu hagor a'u defnyddio. Ni allwn ddarparu'r gwasanaeth os na rowch i ni'r wybodaeth y gofynnwn amdani.

### **Dyletswydd gyfreithiol**

Gall fod angen i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol, er enghraifft os bydd arnom angen gwirio pwy ydych chi, eich cyfeiriad a ffynhonnell eich arian er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian.

### **Buddiannau dilys**

Rydym yn dibynnu ar fuddiannau dilys, er enghraifft, pan fyddwn yn anfon gwybodaeth farchnata am ein cyfrifon neu wasanaethau ac yn cynnal ymchwil i'r farchnad neu arolygon i'n helpu i wella'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigiwn. Gallwch ofyn i ni roi'r gorau i anfon gwybodaeth farchnata a/neu wahoddiadau ymchwil atoch ar unrhyw adeg.

## Cydsyniad

O dan rai amgylchiadau cyfyngedig yn unig yr ydym yn dibynnu ar gydsyniad fel sail gyfreithlon ar gyfer defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, er enghraifft, os gofynnwch i ni rannu gwybodaeth gyda'ch ymgynghorydd ariannol neu gynrychiolydd enwebedig. Gallwch dynnu'ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, ac rydym yn ei gwneud hi'r un mor hawdd tynnu cydsyniad yn ôl ag ydyw i'w roi.

## Budd cyhoeddus/awdurdod swyddogol

Mae adegau pan fydd arnom angen rhannu gwybodaeth gyda chyrrff eraill y llywodraeth er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol, er enghraifft pan fydd ar Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi angen gwybod faint o log gros rydych wedi'i ennill yn ystod blwyddyn dreth.

---

## Eich hawliau

Mae gennych amrywiaeth o hawliau diogelu data yn gysylltiedig â'r wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch. Gallwch arfer unrhyw rai o'r hawliau hyn trwy gysylltu â ni. Sylwch, nid yw pob un o'r hawliau yn rhai absoliwt – mae rhai ohonynt yn dibynnu ar ba sail gyfreithlon rydym yn ei defnyddio er mwyn prosesu eich gwybodaeth.

### Hawl mynediad

Gallwch ofyn i ni roi copi i chi o'r wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch trwy wneud 'Cais Gwrthrych Data am Wybodaeth'. Gallwch lawrlwytho ac argraffu ffurflen o [nsandi.com/data-request](https://nsandi.com/data-request) neu gysylltu â ni er mwyn rhoi i ni'r holl wybodaeth y mae'r ffurflen yn gofyn amdani.

### Hawl i gludadwyedd data

Pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol trwy ddull awtomataidd at ddibenion cytundebol, neu gyda'ch cydsyniad, gallwch ofyn i ni ddarparu'r wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch mewn fformat strwythuredig, y gall peiriant ei ddarllen (er enghraifft ffeil CSV).

### Hawl i gywiro

Os bydd y wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch yn anghywir, yn hen neu'n anghyflawn, rhowch wybod i ni a byddwn yn ei chywiro.

### Hawl i gyfyngu ar brosesu

Os ydych yn tybio nad yw'r wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch yn gywir, gallwch ofyn i ni beidio â'i phrosesu hyd nes byddwn wedi cywiro unrhyw gamgymeriadau neu wirio bod y wybodaeth yn gywir.

### Hawl i wrthwynebu

Pan fyddwn yn dibynnu ar fuddiannau dilys neu ein budd cyhoeddus/awdurdod swyddogol (gweler tudalen 5), gallwch wrthwynebu'r prosesu, ar sail eich sefyllfa benodol, lle mae'n peri niwed neu drallod i chi neu lle mae'n effeithio ar eich hawliau.

### Hawl i ddileu

Gallwch ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol:

- pan nad oes ei hangen arnom mwyach
- pan fyddwch wedi rhoi eich cydsyniad i ni ond wedi'i dynnu'n ôl maes o law
- pan fyddwch wedi mynegi eich gwrthwynebiad i ni brosesu'ch gwybodaeth ac nid oes gennym sail gyfreithlon dros barhau i'w prosesu
- pan fo dyletswydd gyfreithiol arnom i'w dileu

### Hawl i beidio â bod yn destun penderfyniadau a wneir yn awtomataidd

Mae rhai o'n prosesau wedi'u hawtomeiddio'n rhannol neu'n gyfan gwbl, ond ni wnawn benderfyniadau sy'n cael effaith arwyddocaol neu gyfreithiol arnoch heb i bobl ymwneud â'r penderfyniadau hyn. Er enghraifft, gallwn wirio'r dystiolaeth o bwy ydych chi yn electronig, ond os na fydd hyn yn llwyddiannus, byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn am dystiolaeth ddogfennol yn lle hynny.

### **Hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwyllo**

Os oes gennych gŵyn am y ffordd rydym wedi defnyddio'ch gwybodaeth, cysylltwch â ni yn y lle cyntaf a gwnawn ein gorau i unioni pethau i chi. Os na fyddwch yn fodlon â'n hymateb, gallwch anfon eich cwyn ymlaen i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) – gweler y dudalen hon am fanylion cyswllt.

### **Hawliau ychwanegol**

Os byddwch yn anffodlon o hyd, mae gennych hefyd yr hawl i gael adolygiad barnwrol, yr hawl i dderbyn iawndal a'r hawl i gael eich cynrychioli gan sefydliad nid er elw.

### **Newidiadau i'r ffordd rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth**

Gallwch ddiweddararu'r hysbysiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Gallwch weld y fersiwn ddiweddaraf ar [nsandi.com/privacy-notice](https://nsandi.com/privacy-notice) neu rhwch alwad i ni a gallwn anfon copi atoch. Os byddwn yn gwneud newid arwyddocaol i'r ffordd rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth, rhown wybod i chi ymlaen llaw.

### **Cwestiynau neu bryderon ynghylch diogelu data?**

NS&I yw rheolwr data'r wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion ar y dudalen nesaf, neu ysgrifennu at:

Data Protection Officer,  
NS&I,  
Sanctuary Buildings  
20 Great Smith Street  
London  
SW1P 3BT

### **Eisiau gwybod rhagor?**

Gallwch ddysgu rhagor am ddiogelu data a'r hawliau sydd gennych trwy gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth annibynnol:

[ico.org.uk/global/contact-us](https://ico.org.uk/global/contact-us)

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
SK9 5AF

**0303 123 1113**

Hysbysiad preifatrwydd

# Cysylltu a chymorth



Ewch i'n gwefan yn **nsandi.com**



Ffoniwch ni ar **08085 007 007**

Rydym ni yma yn y Deyrnas Unedig bob dydd heblaw am wyliau banc. Mae galwadau o'r Deyrnas Unedig am ddim. Gallai eich galwad gael ei recordio i'n helpu i roi'r gwasanaeth gorau i chi.



Anfonwch neges drydar atom **@nsandihelp**



Ysgrifennwch atom yn **NS&I, Sunderland SR43 2SB**

## A oes angen fformat gwahanol arnoch?

Gofynnwch i ni am gael fersiwn:

- Braille
- Tâp sain
- Cryno ddisg
- Print bras

## A ydych chi'n drwm eich clyw neu â nam lleferydd?

Gallwch gysylltu â ni trwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Testun: deialwch **18001** trwy'ch ffôn testun ac yna rhowch ein prif rif ffôn. Neu ffoniwch ein gwasanaeth Minicom yn uniongyrchol ar **0800 056 0585**.